# Newyddlen Menter y Tŵr

Y TŴR
PWLLHELI
**Gorffennaf 2025**




# Y Tŵr ar ei newydd wedd!

Cyd-ddigwyddiad bendigedig oedd cael dadorchuddio Y Tŵr  wrth i’r haf gyrraedd hen dref Pwllheli ddechrau Gorffennaf. Wrth i’r haen blastig a’r sgaffaldiau fu’n gwarchod yr adeilad ers fis Rhagfyr gael eu tynnu yn ofalus fel petai rhywun yn dad-lapio anrheg gwerthfawr, ymddangosodd y lliw melyn cyfoethog fel talp o aur. Teimlwyd y gwres yn llythrennol yn dod ohono, ac yn cynhesu’r dref,  yn union fel bwriad Menter Y Tŵr . Melyn yn wir enillodd y bleidlais, a gellir dadlau fod sawl arwyddocad i’r lliw. Diolch i’r nifer ohonoch fwriodd bleidlais ac i’r rhai hynny gynghorodd ar y math o felyn fyddai’n gweddu i’r adeilad a’r Stryd Fawr.  Diolch i gwmni adeiladu DR Williams sydd wedi gweithio yn ddiflino, ac i Gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru am ariannu’r gwaith.

Dyma rai o sylwadau gafwyd ar ein gwefannau cymdeithasol ac ebyst:
“Mae’n edrych mor hardd”
“Cymaint gwell!”
“Edrych yn ffab, job dda iawn.”
“Lliw bendigedig”.
“Campwaith!”
“Waw! Mae’n rhoi gobaith a teimlad positif.”
“Oo waw . Lyfli ‘tydi.”
“ Werth ei weld.”
“Ew am hyfryd ’te. Codi calon go iawn tydi a diolch i bawb.”
“Neis iawn. Mae cael paent gola yn gwneud gwahaniaeth mawr.“
“Lliw gwych. Go dda bawb!”
“Cam cyntaf gwych!”

Mae ein ffocws ar gadw’r momentwm ac edrychwn ymlaen i rannu mwy am y datblygiadau nesaf yn newyddlen fis Awst.

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Yn y newyddlen hon**

Hanes ac atgofion am Y Tŵr

Cyfarwyddwr newydd -Lisa

Calendr Digwyddiadau


Diolch i Dawn

# Etifeddiaeth Ddisglair Gwesty'r Tŵr

**Un o griw Menter y Tŵr  ydi Robin-Rhys Jones sydd yn ymddiddori yn fawr iawn yn hen hanes yr adeilad. Mae ganddo gasgliad gwerthfawr o hanesion a toriadau papur newydd ac mae'n ysgu i gael rhannu ychydig o'r hanesion gyda ni.**
Ers ei agoriad swyddogol yn 1877, mae Gwesty'r Tŵr wedi sefyll nid yn unig fel adeilad trawiadol yng nghanol Pwllheli, ond fel llwyfan i rai o straeon mwyaf cofiadwy'r dref — rhai'n ddramatig ac eraill yn ddirdynnol.

Agorwyd y gwesty'n ffurfiol ar 9 Ionawr 1877 mewn seremoni fawreddog dan lywyddiaeth Uwch Siryf Sir Gaernarfon, Mr R. Carreg. Ymhlith y gwesteion arbennig roedd Mr H. T. Richardson (y Fyddin), Mr Francis (y Llynges), a'r Dr T. Hunter Hughes (y Gwirfoddolwyr), gyda Maer Pwllheli, Mr R. Owen Jones, yn is-gadeirydd. Codwyd llwnc-destyn i'r Arglwydd Newborough, a bu cryn glapio dwylo. Dywedwyd ei fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r adeilad "noble a mawr" hwn, a'i fod wedi helpu datrys un o brif broblemau'r dref ar y pryd — sef diffyg llety addas i ymwelwyr. Problem gyffredin iawn i'r hyn sydd yn ein wynebu ni heddiw felly!


Erbyn 1886, roedd y gwesty'n denu cysylltiadau brenhinol. Yn wir daeth Browne, Holmes & Co., masnachwyr sidan y Frenhines Fictoria a Thywysog Cymru, i gynnal arddangosfa ffasiwn o Baris yn y gwesty.



Dyluniau gwreiddiol y pensaer

Yn 1900, cynhaliwyd cyfarfod ar safle'r gwesty i sefydlu Clwb Golff Pwllheli, gyda chefnogaeth frwd gan Solomon Andrews & Sons — datblygiad fyddai'n cryfhau darpariaeth hamdden a chymdeithasol y dref sydd yn parhau hyd heddiw.

Roedd y gwesty hefyd yn ganolbwynt i ddatblygiadau amaethyddol. Yn 1922, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Gofnodi Llaeth Sir Gaernarfon a Môn yn y Tŵr. O dan gadeiryddiaeth yr Athro R. G. White o Fangor, trafodwyd perfformiad buchesi, profi braster menyn, a marcio lloi — arwyddion o amaethyddiaeth fodern a seiliwyd ar ddata a gwyddoniaeth.



Dyluniau gwreiddiol y pensaer

Ond nid oedd pob stori'n dathlu llwyddiant. Yn 1968, daeth Gwesty'r Tŵr yn fan digwyddiad difrifol. Llosgodd Margaret Barrett, aelod o staff 31 oed, ei stafell wely yn y gwesty ychydig ar ôl cael wythnos o rybudd ar ol newid yn y drefn rheoli. Dychwelodd i'r adeilad y noson honno ac, ar ôl sgwrs sydyn gyda chydweithiwr, rhybuddiodd hwy: "Peidiwch â gadael iddyn nhw gysgu yma." Yn fuan wedi hynny, cododd mwg trwchus o'r llawr uchaf. Ceisiodd Miss Joan Griffith redeg i fyny'r grisiau, ond cafodd ei hatal gan y mwg. Galwyd y gwasanaeth tân, ac erbyn 11.20 y noson honno, roedd Mrs Barrett wedi cerdded i Orsaf Heddlu Pwllheli a chyhoeddi : "Fi roddodd y lle ar dân." Amcangyfrifwyd i'r difrod i gostio rhwng £4,500 a £5,000. Yn Llys yr Uchel Siryf yng Nghaernarfon, cafodd ei chymeriad da a'i gwaith caled ei gydnabod a rhoddwyd tair blynedd ar brawf iddi, gydag amod y byddai'n treulio blwyddyn yn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych.

O ffasiwn brenhinol i ffermio gwyddonol, o chwaraeon i straeon dwys, mae Gwesty'r Tŵr wedi bod wrth galon hanes Pwllheli ers bron i 150 mlynedd — nid yn unig adeilad, ond archif fyw o'r hyn sydd wedi siapio'r dref a'i phobl.

**Robin Rhys-Jones.**

# Croesawu Lisa Dafydd, aelod newydd i fwrdd y Tŵr

**Rydym yn falch iawn o gyhoeddi penodiad cyfarwyddwr newydd i'r fenter Croeso cynnes i Lisa Dafydd.**

Mae Lisa yn gyfrifwraig brofiadol ac wedi gweithio gyda nifer o fusnesau lleol, bach a mawr, dros y blynyddoedd. O ganlyniad i'w gwybodaeth a'i phrofiad, bydd Lisa yn ymgymryd â rôl y trysorydd ar gyfer y fenter.

Yn wreiddiol o Benrhyndeudraeth, mae Lisa yn byw ym Mhwllheli gyda'i gŵr a'u dau o blant ers bron i 15 mlynedd. Croeso i'r tîm, Lisa – rydym yn edrych ymlaen i gydweithio!



## Calendr Digwyddiadau

**Mis Awst. 2025**

Raffl ar gyfer Menter Y Tŵr , ar werth yn Salon Kar 'a' Lyns yn ystod Mis Awst (£1 y strip)


**09 Medi 2025**

Noson Bingo yng nghlwb Golff Pwllheli. ( Diolch i Karen Rees am drefnu. )

**18 Hydref 2025**

Cyngerdd Cor Y Brythoniaid a Lleucu Gwawr yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli. Raffl er budd Menter y Tŵr .

## Diolch i Dawn



Dros yr wythnosau diwethaf, mae Dawn Sweetman-Jones wedi bod yn brysur yn cynnal cystadleuaeth Pêl Fônws i godi arian at Fenter Y Tŵr . Bu'r gystadleuaeth yn llwyddiant ysgubol, gan godi bron i £1000 at y gronfa.  Hoffem ddiolch yn fawr i Dawn am ei holl waith caled a'i hymroddiad dros yr wythnosau diwethaf.

Mae croeso cynnes bob amser i unigolion ymuno gyda'r gwahanol griwiau sydd yn ffurfio Menter y Tŵr . Mae angen syniadau newydd am ffyrdd difyr o godi arian, a pobl sydd a gwahanol ddiddordebau i drefnu amrywiol weithgareddau i gasglu arian a creu bwrlwm cymdeithasol yn y dref.  Mae croeso i chi gysylltu gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol neu e-bostio ytwrpwllheli@gmail.com i drafod syniadau. Diolch o galon.

*Criw Y Twr x*

| | |
|---|---|
| www.ytwr.cymru | Diolch i Llelo Gruffydd am gael defnyddio ei luniau yn y newyddlen hwn. www.instagram.com/ffotollelo/ |